

❖ MYFYRDOD ‘GANOL GAEAF NOETHLWM’

Nid Nadolig yr eira a'r robin yw un y Wladfa. Yno, yn hemisffer deheuol y byd, ar ganol haf y daw'r Nadolig, a chael bwyd a chwaraeon yn yr awyr agored yw'r drefn. Llongwr oedd S. B. Jones cyn mynd yn weinidog, ac mae'n siŵr i awdur pryddest boblogaidd 'Rownd yr Horn' brofi sawl Nadolig twym tra wrth ei alwedigaeth gyntaf. Ond y 'Nadolig gwyn' traddodiadol, darlun y garden Nadolig, a gawn ym mhennill cyntaf ei drosiad celfydd o rai o benillion y garol Saesneg hyfryd 'In the bleak midwinter'.

Dyfodiad diweddar i blith dathliadau'r ŵyl yw'r garden Nadolig. Datblygodd yn Lloegr yn yr 1840au fel dyfais i rwyddhau'r arfer o ysgrifennu at gyfeillion a pherthnasau i gyflwyno iddynt gyfarchion y tymor. Dechreuasant fynd yn boblogaidd o tua 1870 ymlaen, yn sgil costau postio ac argraffu rhatach, ac erbyn hyn anfonir miliynau lawer ohonynt o bob lliw a llun, gyda chyfartaledd uchel o'r rhai Cymraeg yn cael eu gwerthu er budd achosion da.

Prin iawn oedd y cardiau Nadolig Cymraeg cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd anfon cardiau yn arfer dieithr i T. Llew Jones pan oedd yntau'n grwt yn Nyffryn Teifi yn y blynyddoedd wedi'r rhyfel hwnnw. Ond sonia ef fel y daeth yn ffasiwn ymhlith beirdd enwog y Cilie yng ngodre Ceredigion anfon englynion i gyfarch ei gilydd adeg y Nadolig. Un o deulu'r Cilie oedd S. B. Jones, wrth gwrs, ac ni bu neb yn fwy cyson nag ef yn llunio englynion o'r fath.

Ganol gaeaf noethlwm
 Cwynai'r rhewynt oer,
 Ffridd a ffrwd mewn cloeon
 Llonydd dan y lloer.
 Eira'n drwm o fryn i dref,
 Eira ar dwyn a dôl,
 Ganol gaeaf noethlwm
 Oes bell yn ôl.

Metha nef a daear
 Gynnwys ein Duw;
 Ciliant hwy a darfod
 Pan fydd Ef yn llyw.
 Ganol gaeaf noethlwm
 Digon beudy trist
 I'r Arglwydd Hollalluog
 Iesu Grist.

Beth a roddaf iddo,
 Llwm a thlawd fy myd?
 Pe bawn fugail, rhoddwn
 Orau'r praidd i gyd;
 Pe bawn un o'r doethion,
 Gwnawn fy rhan ddi-goll;
 Ond pa beth a roddaf?
 Fy mywyd oll.

Christina Georgina Rossetti (1830–94)
 cyf. Simon B. Jones (1894–1964)

E. Wyn James